

CITB Cynllun Hyfforddi Diogelwch Rheoli Safle (SMSTS) Lefel 3



Yn gwyno

Os ydych yn gyfrifol am iechyd a diogelwch pawb ar y safle, gallai'r cwrs hwn fod yn amhrisiadwy. Mae'n rhoi canllaw i chi ar gyfer sicrhau bod y gwaith i gyd yn cael ei wneud yn unol â chyfraith gyfredol, ac yn edrych ar atebolrwydd dros iechyd, diogelwch a lles y gweithwyr ar y safle.

Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

...Cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddeddfwriaeth gyfredol ac arferion gweithio diogel yn niwydiannau amgylchedd adeiledig ac adeiladu

...Unrhyw un sydd wedi neu ar fin ymgymryd â chyfrifoldebau goruchwylol

...Deall y cyfrifoldebau cyfreithiol sy'n berthnasol i'ch gweithgareddau gwaith



TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Cynnwys y cwrs

Mae'r cwrs 5-niwrnod hwn yn cwmpasu'r pynciau canlynol:

Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith
Rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli) 2015
Gosodiad safle
Asesiadau risg a datganiadau dull
Gweithio ar uchder
Sgaffaldiau
Trydan
Cloddiadau
Dymchwel
Gweithio mewn lleoedd cyfyng
Newidiadau diweddar mewn arferion gwaith derbyniol

Cewch eich asesu ar eich cyfranogiad trwy gydol y cwrs, ynghyd ag arholiad 25-cwestiwn sy'n cynnwys cwestiynau aml-ddewis ac atebion ysgrifenedig byr. Ar ôl ei gwblhau'n llwyddiannus, byddwch yn derbyn tystysgrif sy'n ddilys am 5 mlynedd.

Gofynion Mynediad

Nid oes unrhyw ofynion mynediad ffurfiol.

Gwybodaeth Ychwanegol

Mae'r cwrs hwn hefyd ar gael fel rhan o Gyfrif Dysgu Personol (PLA). Mae PLA yn fenter gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnig cyfle i bobl gael mynediad at gyrsiau rhan-amser rhad ac am ddim gyda dysgu hyblyg a chyfleus sy'n cyd-fynd â'u ffordd o fyw bresennol (yn amodol ar gymhwysedd). Os ydych chi dros 19 oed, yn byw yng Nghymru, mewn cyflogaeth, yn ennill llai na £30,596 y flwyddyn ac yn dymuno gwneud cais am y cwrs hwn fel rhan o'r fenter PLA, defnyddiwch y ddolen isod i wneud cais:

<https://www.coleggwent.ac.uk/cy/course/LA0016/citb-site-management-safety-training-scheme-smsts?uioid=504791>

Apply online at www.coleggwent.ac.uk

studentrecruitment@coleggwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

